Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

Awst 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

Awst 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

---

## Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ........ 5**

**Argymhellion ........ 6**

**1. Y cefndir ........ 8**

Ystyriaeth gychwynnol ........ 8

Beth yw rheoliadau adeiladu yn ymarferol? ........ 8

Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ........ 9

Gwaith craffu blaenorol ........ 10

Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC) ........ 11

**2. Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ........ 12**

Trosolwg ........ 12

Casgliadau a chanfyddiadau ........ 12

Argymhellion ac ymateb ........ 14

**3. Cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu ........ 16**

Cynllunio gwasanaethau ........ 16

LABC a thystiolaeth Llywodraeth Cymru ........ 17

Cynllunio'r gweithlu ........ 20

Safbwynt LABC ........ 22

Ymateb Llywodraeth Cymru ........ 25

Dull marchnad gymysg ........ 29

Barn Llywodraeth Cymru ........ 31

Ein barn ni ........ 32

**4. Cynllunio ariannol, monitro a chraffu ........ 36**

Rheolaeth ariannol ........ 36

Monitro perfformiad ... 38

Goruchwylio a rheoli risg ... 41

Ein barn ni ... 42

**5. Materion ôl-weithredol ... 44**

Cyd-destun ... 44

Datblygiadau dilynol ... 45

LABC a thystiolaeth Llywodraeth Cymru ... 47

Ein barn ni ... 50

**Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ... 52**

# Rhagair y Cadeirydd

Roedd y Pwyllgor yn falch o ystyried adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddiogelwch adeiladau yng Nghymru, sy'n codi cyfres o faterion sy'n haeddu cael eu harchwilio a'u hystyried ymhellach gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn ddiolchgar i swyddogion sy'n cynrychioli Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru am ymgysylltu mewn ffordd mor adeiladol â'r Pwyllgor yn ystod y gwaith hwn.

Yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell, mae'n amlwg bod angen meddwl am y trefniadau ar gyfer diogelwch adeiladau yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, yn ogystal â meddwl am y sector diogelwch adeiladau yn fwy cyffredinol, i asesu a yw'n cyflawni ei bwrpas.

Clywodd y Pwyllgor am y gweithlu a'r materion cynllunio gwasanaethau sy'n wynebu'r diwydiant, sy'n gofyn am ymyrraeth a buddsoddiad pellach. Mae'n hanfodol bwysig bod mwy yn cael ei wneud i sicrhau bod y diwydiant yn parhau'n lle deniadol i weithio ynddo ac yn denu ymgeiswyr newydd a allai gynrychioli dyfodol y sector. Rydym yn credu bod angen ymyrraeth gan lywodraeth ganolog i sicrhau newid cadarnhaol yn y maes hwn, ac mae'r Pwyllgor yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru gael effaith gadarnhaol yn gyflym.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y dull marchnad gymysg draddodiadol a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i ystyried y model a ddefnyddir yma yng Nghymru, er mwyn deall yn well a yw'n diwallu anghenion y genedl.

Bydd cyflwyno'r Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) sydd ar ddod o ddiddordeb mawr i'r Pwyllgor hwn. Er bod y Pwyllgor yn parhau i bryderu am adnoddau yn y sector i gyflawni newidiadau, y gobaith yw y bydd hyn yn gwneud cynnydd sylweddol ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau sydd wedi'i godeiddio mewn dogfen sy'n egluro ei nod a'i dyheadau ar gyfer y sector. Dylid rhannu copi o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau hwn gyda'r Pwyllgor, pan fydd ar gael. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 2.** Dylid rhannu manylion am unrhyw gyllid cyfatebol pellach ar gyfer recriwtio hyfforddeion ar gyfer 2024-25, a thu hwnt, gyda'r Pwyllgor, ynghyd â manylion am y dull sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddeion yn aros o fewn y diwydiant ar ôl cwblhau eu hyfforddiant. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector rheolaeth adeiladu i roi cynllun cenedlaethol ar waith ar gyfer recriwtio hyfforddeion a phrentisiaid, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. Gallai'r cynllun cenedlaethol hwn gael ei gydlynu gan Lywodraeth Cymru a'i ategu gan y cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau. ....... Tudalen 34

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i unrhyw waith sy'n ymwneud â modelau cydweithio, gan gynnwys hybiau rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru, Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gael ei rannu gyda ni, unwaith y bydd ar gael. Pan anfonir hwn, hoffai'r Pwyllgor hefyd ddysgu mwy am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu unrhyw gynigion sydd wedi'u cynnwys yn allbwn y gwaith hwnnw. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 5.** Dylid rhannu canlyniad yr adolygiad o'r farchnad gymysg gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd ar gael, ynghyd â datganiad o fwriad gan Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau a diwygiadau canlyniadol yr hoffai eu gwneud i'r system. Dylid ystyried hefyd a yw model hybiau tebyg i'r Alban, naill ai fel rhan o ddull marchnad gymysg neu ddull awdurdod lleol, yn fuddiol ac a ellid ei weithredu yng Nghymru. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chynghorau Cymru i werthuso eu prosesau pennu ffioedd, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010, yn ogystal â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, yn sgil casgliad yr Archwilydd Cyffredinol. Dylid rhannu gwybodaeth am unrhyw waith yn y maes hwn â'r Pwyllgor. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro’r broses o weithredu’r fframwaith perfformiad cenedlaethol ar gyfer rheolaeth adeiladu a gwasanaethau diogelwch adeiladau ac adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ar hyn ddechrau 2025. ........ Tudalen 43

# 1. Y cefndir

## Ystyriaeth gychwynnol

**1.** Ar 1 Awst 2023, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ('yr Archwilydd Cyffredinol') adroddiad ynghylch diogelwch adeiladau[1], yng nghyd-destun gweithredu gofynion Deddf Diogelwch Adeiladau 2022.

**2.** Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2023 a chytunodd i gymryd rhagor o dystiolaeth. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda chynrychiolwyr o Reoli Adeiladu Awdurdodau Lleol ('LABC'), yn ogystal â Llywodraeth Cymru, i lywio ei gasgliadau.

## Beth yw rheoliadau adeiladu yn ymarferol?

**3.** Mae rheoliadau adeiladu yn set o ofynion cyfreithiol sy'n rheoli'r broses o ddylunio ac adeiladu adeiladau newydd, estyniadau, a newidiadau materol i adeiladau presennol, a rhai newidiadau o ran eu defnydd. Bwriad y rheoliadau hyn yw helpu i sicrhau bod adeiladau newydd, addasiadau, gwaith adnewyddu ac estyniadau (domestig neu fasnachol) yn ddiogel, yn hygyrch ac yn effeithlon o ran ynni.

**4.** Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru ers eu datganoli ym mis Rhagfyr 2011. Mae'r system yng Nghymru yn adlewyrchu'r system yn Lloegr, ac mae wedi parhau'n ddigyfnewid i raddau helaeth ers i Ddeddf Adeiladu 1984 ddod i rym.

**5.** Dylunwyr, adeiladwyr a pherchnogion adeiladau sy'n bennaf cyfrifol am gydymffurfio â'r rheoliadau hyn. Maent yn gyfrifol am geisio cymeradwyaeth i'w gwaith gan naill ai:

- arolygydd o'r cyngor lleol; neu
- arolygydd cymeradwy o gwmni rheolaeth adeiladu preifat sydd wedi'i gymeradwyo gan y llywodraeth.

**6.** Yn yr Alban, mae'r system yn wahanol a chynghorau sy'n gyfrifol am yr holl weithgareddau rheolaeth adeiladu, heb unrhyw arolygwyr cymeradwy yn rhan o'r broses.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023

**7.** Mae'n ofynnol i arolygwyr cymeradwy gofrestru gyda Chofrestr Archwilwyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu ('CICAIR'). Mae'r CICAIR yn rhestru dau arolygydd cymeradwy y mae eu cyfeiriadau cofrestredig yng Nghymru, er bod cyfanswm o wyth sy'n nodi eu bod yn gweithredu yng Nghymru (ym mis Ionawr 2024).

**8.** Mae arolygwyr ac arolygwyr cymeradwy cynghorau lleol yn gweithredu yn yr un modd, drwy wirio cynlluniau cyn dechrau unrhyw waith, mynd i archwilio unrhyw waith wrth iddo gael ei ddatblygu, cynghori unrhyw newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth, ac ail-archwilio'r gwaith cyn cymeradwyo'r prosiect.

**9.** Fodd bynnag, dim ond cynghorau sydd â phwerau gorfodi ac erlyn, os bydd y rheoliadau'n cael eu torri. Os bydd unrhyw faterion yn codi na ellir eu datrys yn anffurfiol, rhaid i arolygydd cymeradwy drosglwyddo'r prosiect i'r Cyngor. Gall cosbau am dorri rheoliadau gynnwys dirwyon a charchar, er yn ymarferol nid yw atgyfeiriadau a gorfodi yn digwydd yn aml.

**10.** Arhosodd y system yr un fath i raddau helaeth tan dân Tŵr Grenfell yn 2017, a arweiniodd at farwolaeth 72 o bobl. Comisiynwyd Ymchwiliad Hackitt i adolygu rheoliadau adeiladu a diogelwch tân, ac fe gyhoeddodd adroddiad ym mis Mai 2018[2]. Roedd yr adroddiad yn argymell diwygiadau sylweddol i'r sector rheolaeth adeiladu, a arweiniodd at Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ('y Ddeddf').

## Deddf Diogelwch Adeiladau 2022

**11.** Cafodd ymateb Llywodraeth y DU i Ymchwiliad Hackitt ei gynnwys yn y Ddeddf, a newidiodd y system yn Lloegr. Dewisodd Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau effeithlonrwydd o ran meysydd cyffredin, y gellid eu rhoi ar waith yng Nghymru hefyd. O'r herwydd, mae Rhan 3 o'r Ddeddf hefyd yn gymwys i Gymru.

**12.** Mae'r newidiadau ymarferol sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 3 o'r Ddeddf yn cynnwys:

- Caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio adeilad risg uwch;
- Gofyniad i gynghorau yng Nghymru wneud gwaith ar adeiladau risg uwch; a

[2] Building a Safer Future - Independent Review of Building Regulations and Fire Safety: Final Report, Mai 2018

- Gofyniad i gofrestru staff rheolaeth adeiladu, gosod cod ymddygiad, a gosod gofynion cymhwysedd.

**13.** Y prif wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr yw rôl Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau newydd ('y Rheoleiddiwr'), sy'n rhan o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a fydd yn cyflawni yn Lloegr y swyddogaethau a gedwir yn ôl i Weinidogion Cymru yng Nghymru.

**14.** Bydd y Rheoleiddiwr yn monitro perfformiad cyrff rheolaeth adeiladu, yn llunio cofrestr ac yn gosod codau ymddygiad a chymhwysedd. Bydd unrhyw adeiladau sy'n cael eu nodi fel rhai "risg uwch" yn cael eu harchwilio yn Lloegr gan y Rheoleiddiwr, tra bydd cynghorau'n gwneud hynny yng Nghymru.

**15.** Mae Rhan 4 o'r Ddeddf, nad yw'n gymwys i Gymru, yn sefydlu gofynion newydd ar gyfer meddiannu adeiladau ac yn diffinio'r hyn a gaiff ei ystyried yn adeilad "risg uwch". Mae hefyd yn diffinio rôl "unigolyn atebol", sef sefydliad neu unigolyn sy'n berchen ar, neu sydd â rhwymedigaeth gyfreithiol i atgyweirio, unrhyw rannau cyffredin o adeilad. Mae'n gofyn am benodi "prif berson atebol" ar gyfer pob adeilad, sydd wedyn yn bwynt cyswllt sengl. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r personau atebol hyn asesu a rheoli risgiau diogelwch adeiladau.

**16.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y systemau newydd mewn grym o fis Ebrill 2025 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n gyhoeddus ar y fframwaith cymhwysedd, y gofynion o ran cofrestru a rheoleiddio, a'r cod ymddygiad. Mae hefyd yn paratoi deddfwriaeth atodol i gefnogi ei dull gweithredu ac i ymdrin â meysydd o'r Ddeddf nad ydynt yn gymwys i Gymru ar hyn o bryd, megis y meysydd a gwmpesir yn Rhan 4. Roedd hefyd yn datblygu cynlluniau i ddirprwyo rhai o gyfrifoldebau'r Ddeddf i gyrff eraill.

**17.** Mewn datganiad ar 4 Mawrth 2024, nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd (ar y pryd) awydd i fynd ymhellach na'r rheolau sy'n berthnasol yn Lloegr o dan y Ddeddf, gyda'r bwriad o gwmpasu "pob adeilad preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru sydd â dwy neu fwy o unedau preswyl, ni waeth pa mor uchel yw'r adeiladau hynny"[3] yn ei Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) sydd ar ddod.

## Gwaith craffu blaenorol

**18.** Yn ystod y Bumed Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau blaenorol ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn. Roedd yn edrych ar y canllawiau diogelwch tân a roddir i breswylwyr a sut y caiff preswylwyr eu hysbysu'n barhaus. Roedd hefyd yn edrych

[3] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, 4 Mawrth 2024

ar gamau i adfer materion presennol o ran diogelwch adeiladau. Cyhoeddodd y Pwyllgor[4] adroddiad ym mis Tachwedd 2018 ac ymatebodd hefyd i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar eu Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru[5], ym mis Mawrth 2021.

**19.** Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd bresennol wedi parhau i gasglu tystiolaeth a gohebiaeth ynghylch materion diogelwch adeiladau ôl-weithredol. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan grŵp gweithredu i breswylwyr, y Welsh Cladiators, sy'n ymgyrchu am waith adfer ar adeiladau presennol, a fydd yn cael ei chrynhoi yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**20.** Er nad yw wedi adrodd ar y mater, mae'r Pwyllgor wedi codi materion gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd mewn llythyr ym mis Mawrth 2023, gan nodi pryderon ynghylch cyflymder y camau gweithredu i adfer adeiladau anniogel[6]. Cododd y Pwyllgor faterion hefyd ynghylch safonau adeiladu cyffredinol a'r "diffyg rheoliadau amlwg i gywiro diffygion".

## Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC)

**21.** Mae Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC) yn gorff cynrychioliadol ar gyfer timau rheolaeth adeiladu cynghorau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cefnogi timau cynghorau drwy hyfforddiant, cymorth technegol a'r cynllun awdurdod partner. Mae'r cynllun olaf yn galluogi datblygwyr i weithio gydag un tîm LABC ar gyfer pob datblygiad, ni waeth ble mae'r datblygiad wedi'i leoli.

**22.** Mae hefyd yn ariannu rhaglen academi ar gyfer syrfewyr adeiladu dan hyfforddiant yng Nghymru a Lloegr. Er ei fod wedi'i ariannu i ddechrau gan Lywodraeth y DU, mae LABC bellach yn ariannu'r cynllun hwn yn y ddwy wlad, gyda hyfforddeion yn cael contractau dwy flynedd gyda secondiadau i gynghorau a chymwysterau a ariennir.

**23.** Mae LABC yn cael ei arwain gan dîm gweithredol, dan arweiniad Prif Weithredwr, Lorna Stimpson, ac yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr sy'n cynnwys rheolwyr rheolaeth adeiladu. LABC Cymru yw cangen Gymreig y sefydliad, dan gadeiryddiaeth Peter Richards. Clywodd y Pwyllgor gan Peter Richards ar 17 Ionawr 2024.

[4] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn (sector preifat), Tachwedd 2018
[5] Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru, Ionawr 2021
[6] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 24 Mawrth 2023

# 2. Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

## Trosolwg

**24.** Archwiliodd yr adroddiad sut yr oedd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill, megis gwasanaethau tân ac achub, wedi cryfhau gwasanaethau rheolaeth adeiladu ac yn bwriadu rhoi'r Ddeddf ar waith.

**25.** Ystyriodd yr Archwilydd Cyffredinol gadernid y wybodaeth am anghenion, strategaethau, cynlluniau a pholisïau, yn ogystal â gwytnwch y gwasanaethau presennol a chynlluniau i'w cryfhau. Bu hefyd yn ystyried cadernid y systemau sicrwydd sydd ar waith.

**26.** Er mwyn llywio eu gwaith, bu'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn cyfweld â staff rheolaeth adeiladu o bob cyngor, gweision sifil, swyddogion tân, yn ogystal â chyrff cynrychioliadol gan gynnwys LABC, ynghyd â'r Gymdeithas arolygwyr cymeradwy Ymgynghorol, a Chyngor y Penaethiaid Tân Cenedlaethol. Gwnaeth hefyd gwrdd â chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban, yn ogystal â thimau rheolaeth adeiladu'r Alban.

**27.** Ni wnaeth yr adroddiad archwilio'r mesurau a gymerwyd i wneud adeiladau'n ddiogel yn ôl-weithredol, megis ailosod cladin, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar y systemau i sicrhau bod gwaith adeiladu yn y dyfodol yn ddiogel.

## Casgliadau a chanfyddiadau

**28.** Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

> *"Ein casgliad ar y cyfan yw nad yw cyrff cyfrifol – yn enwedig awdurdodau lleol a thân ac achub – yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol a sicrhau bod adeiladau yng Nghymru'n ddiogel"*[7].

**29.** Aeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… er ei bod yn galonogol gweld yr awch ac ymrwymiad gan y rhai sy'n gweithio yn y sector, rwy'n pryderu nad oes digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r gwasanaethau hyn ar lawr gwlad. Mae'r diffyg*

[7] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 8

> *cynlluniau cadarn, prosesau penderfynu eglur ac adnoddau digonol yn codi pryderon go iawn na fydd y ddeddfwriaeth newydd yn cael ei chyflawni ac y bydd y problemau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy'n dal i fodoli"*[8].

**30.** Roedd prif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Blaenoriaethodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i Ymchwiliad Hackitt, gan weithio gyda Llywodraeth y DU. Arweiniodd hyn at y Ddeddf, sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog o ran rheoleiddio a goruchwylio'r gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau.

- Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi dilyn trywydd gwahanol mewn meysydd polisi allweddol, ac roedd peth amheuaeth yn parhau ynglŷn â sut y bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru, yn bennaf oherwydd bod penderfyniadau mewn meysydd allweddol i'w gwneud a chytuno arnynt o hyd. Mae hyn wedi creu ansicrwydd, ac nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau a Gwasanaethau Tân ac Achub wedi datblygu cynlluniau cynhwysfawr eto i nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni eu cyfrifoldebau newydd a diwygiedig.

- Fel proffesiwn, mae rheolaeth adeiladu a diogelwch adeiladau yn wynebu heriau staffio sylweddol. Mae gweithlu sy'n heneiddio, gwaith cynllunio olyniaeth gwael, diffyg buddsoddiad ehangach mewn gwasanaethau a hyfforddiant a datblygu yn dangos nad yw'r gwasanaethau hyn yn wydn nac yn addas at y dyfodol.

- Mynegwyd pryderon ynghylch rheolaeth ariannol ar reolaeth adeiladu, gan ddod i'r casgliad y gallai arferion presennol rhai cynghorau fod yn anghyfreithlon[9], pan nad yw gwasanaethau'n gweithredu'n unol â rheoliadau a chanllawiau.

- Er bod y pandemig wedi helpu cynghorau i foderneiddio'u gwasanaethau, gan ddefnyddio TG yn y cwmwl a gweithio o bell, mae eu gwytnwch serch hynny yn parhau i fod yn wan. Nid yw cyfleoedd i gryfhau gwasanaethau drwy gydweithio a rhanbartholi yn cael eu blaenoriaethu, ac ychydig o waith sydd wedi digwydd yn y meysydd hyn.

---

[8] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 9

[9] Yn y cyd-destun hwn, mae anghyfreithlon yn golygu gweithredoedd sy'n groes i reoliadau. Ni ddaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad bod unrhyw unigolion wedi cyflawni twyll neu unrhyw weithgaredd troseddol yn fwriadol.

- Mae absenoldeb fframwaith cenedlaethol ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith rheolaeth adeiladu a diogelwch adeiladau yn golygu nad yw cynghorau a'u partneriaid yn gweithio'n unol â mesurau deilliant, targedau na meincnodau y cytunwyd arnynt. Ynghyd â threfniadau craffu a gwerthuso cyfyngedig ar waith rheolaeth adeiladu a diogelwch adeiladau, a rheolaeth wael ar risg, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad yw'r systemau sicrwydd yn ddigonol.

## Argymhellion ac ymateb

**31.** Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol wyth argymhelliad, a chyfeiriwyd pedwar ohonynt at Lywodraeth Cymru a phedwar at gynghorau. Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad[10] yn ein cyfarfod ar 14 Medi 2023.

**32.** Yn dilyn yr ymateb hwn, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ddiweddariad i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023, gan gydnabod canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a chrynhoi rhai o'r camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion.

**33.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr holl argymhellion a wnaed iddi, er ei bod yn cydnabod bod un yn ymwneud yn rhannol ag eraill. Mae'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Argymhelliad 1 - Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder ynghylch gweithredu a disgwyliadau'r Ddeddf er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Mae hyn yn cynnwys egluro'r gofynion ar gyfer cymhwysedd a chofrestru, amserlen ar gyfer datblygu a mabwysiadu canllawiau Cymru a gweithio gyda rhanddeiliaid i roi cymorth i ddeall y canllawiau a'u rhoi ar waith pan gânt eu cyhoeddi – derbyniwyd.

- Argymhelliad 2 - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi sydd eu hangen, er mwyn lleihau risgiau i'w rhoi ar waith – derbyniwyd.

- Argymhelliad 3 - Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull marchnad gymysg a dod i'r casgliad pa un a yw'n parhau i fod yn effeithiol. Yn y cyd-destun hwn, dylai edrych ar y model yn yr Alban, dadansoddi

[10] Llythyr oddi wrth Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 31 Awst 2023

costau, buddion, bygythiadau a risgiau'r dull ac edrych ar ymchwil presennol ac arfer gorau – derbyniwyd.

- Argymhelliad 4 - Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwaith o oruchwylio a rheoli'r sector, er mwyn sicrhau bod system sicrwydd gadarn ar waith. Byddai hyn yn cynnwys creu fframwaith perfformiad cenedlaethol, datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau, a gweithio gyda'r sector addysg i ddeall yn well sut i gyflwyno'r hyfforddiant perthnasol – derbyniwyd yn rhannol.

**34.** Gwnaed pedwar argymhelliad i gynghorau, gan gynnwys:

- Argymhelliad 5 – Dylai cynghorau ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheolaeth adeiladu er mwyn caniatáu iddynt gynllunio'n effeithiol i weithredu gofynion y Ddeddf. Dylai hyn fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol, sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer y gwasanaethau, a chynnwys mesurau deilliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheolaeth adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig.

- Argymhelliad 6: Dylai cynghorau fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reolaeth adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

- Argymhelliad 7 – Dylai cynghorau weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau drwy archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a rhanbartholi.

- Argymhelliad 8 – Dylai cynghorau adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac i sicrhau eu bod yn destun gwaith craffu a gwerthuso.

# 3. Cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu

## Cynllunio gwasanaethau

**35.** Er mwyn i'r trefniadau newydd gael eu gweithredu, bydd angen darparu deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau ategol i'r sector, er mwyn galluogi cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hyn fod mewn grym erbyn mis Ebrill 2025, fodd bynnag, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod y manylion a'r ymarferoldeb ynghylch y newidiadau hyn yn ansicr ym marn y sector[11].

**36.** Eglurodd nad oedd manylion am rôl cynghorau ag adeiladau risg uchel, yn benodol, wedi cael eu nodi'n glir gan Lywodraeth Cymru, gan fynd ymlaen i ddweud:

> *"Mae'r rhai yr ydym ni wedi cyfweld â hwy'n teimlo'n anesmwyth ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud awdurdodau lleol yn Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau ar gyfer goruchwylio adeiladau risg uchel. Cododd sawl corff arolygwyr cymeradwy (sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr) a rhai aelodau o staff gwasanaethau tân ac achub bryderon nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau na phrofiad addas i gyflawni'r rôl hon. Yn hytrach, byddai'n well ganddyn nhw weld Cymru'n mabwysiadu'r system Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau sydd yn yr arfaeth yn Lloegr"*[12].

**37.** Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod awdurdodau lleol a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn pryderu ynghylch "datblygiad hwyr a/neu hysbysu'n hwyr ynghylch penderfyniadau ac opsiynau polisi ar gyfer gweithredu'r newidiadau i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau a gyflwynwyd gan y Ddeddf"[13]. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod pryderon gan bob cyngor hefyd ynghylch oedi o ran y manylion ynghylch prosesau cofrestru, yn ogystal â phryderon am yr amser sydd ei angen ar gyfer cymorth hyfforddiant, os bydd angen hynny ar swyddogion.

**38.** Roedd argymhellion un a dau yr Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad yn ymwneud â chynllun Llywodraeth Cymru i roi manylion am weithredu'r drefn

[11] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 8
[12] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 21
[13] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 21

newydd, yn ogystal â sicrhau bod adnoddau ar gael i gyflawni hyn. Cafodd y ddau argymhelliad eu derbyn a'u nodi mewn dau gam. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio'r proffesiwn rheolaeth adeiladu, gan ddod i rym ym mis Ebrill 2024. Mae'r ail yn ymwneud â dyletswyddau ar bersonau atebol[14].

## LABC a thystiolaeth Llywodraeth Cymru

**39.** Yn ei hymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys LABC, yn ogystal â gweithio gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau. Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol argymell hefyd y dylai cynghorau ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith[15].

**40.** Dywedodd LABC wrth y Pwyllgor fod yr amserlen a awgrymir yn realistig, ond serch hynny bydd yn heriol i'w chyflawni[16]. Gwnaethant gadarnhau y byddent yn gweithio gyda chynghorau i gyflawni'r newidiadau ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru[17].

**41.** Cytunodd y Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ("y Cyfarwyddwr Cyffredinol") ag asesiad LABC, gan fynd ymlaen i ddweud:

> *"It is challenging, but it is definitely doable. We've deliberately split the timetable into two phases so that we don't overwhelm the sector with the scale of change that is coming, and that allows us enough time to consult and properly engage with people as we draft the legislation and introduce the new procedures. So, as I say, not without challenge, but doable from our perspective"*[18].

**42.** Mewn ymateb i gwestiwn am lefel y manylder sydd ar gael i gynghorau i gyflawni eu cyfrifoldebau newydd, dywedodd Peter Keates wrth y Pwyllgor:

> *"I think, probably, the pace of the building safety requirements and their lack of detail at the minute in terms of how it's going to move*

[14] Llythyr oddi wrth Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 31 Awst 2023
[15] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 14
[16] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 25
[17] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 27
[18] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 19

> *forward for implementation in 2025. It probably needs to accelerate quite quickly"*[19].

**43.** Ymhelaethodd Peter Richards ar hyn, gan ddweud:

> *"There is definitely some unease, if you like, around the next stage. We're obviously aware of what we need to do in terms of registration and competency by the end of March. But it's the phase 2 implementation that is not clear, and hasn't been communicated. I know it's forthcoming, but it's the unease around that, I think, that's causing issues for authorities at the minute"*[20].

**44.** Cytunodd cynrychiolwyr LABC â chanfyddiadau ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac maent yn gweithio gydag aelodau i'w rhoi ar waith.[21]. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau gweithredu lleol, hyfforddiant ar reolaeth ariannol, a rheoli risg[22]. Byddant yn hwyluso hyn drwy gynnal uwchgynhadledd ar gyfer cynghorau Cymru[23].

**45.** Pan holwyd y Cyfarwyddwr Cyffredinol am yr adnoddau sydd ar gael yn Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith polisi a thechnegol sydd eu hangen ar gyfer y system newydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor:

> *"… when this work was undertaken, (the Auditor General) did point out the number of vacancies that we had in the team at the time, and I can say that we have been active in recruitment prioritising this area amongst our resourcing pressures. So, the team that are now working on this report, the building regulations team, is at full complement, so that has been addressed. However, there are vacancies in the wider policy and technical team, which we are seeking to address. But in terms of taking this work forward, we do have a full team to do that"*[24].

---

[19] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 57
[20] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 59
[21] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 31
[22] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 64
[23] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 66
[24] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 21

**46.** Pan ofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am yr anawsterau wrth lenwi'r rolau gwag, dywedodd wrth y Pwyllgor fod heriau o ran denu pobl gyda'r sgiliau cywir, y cymhwyster cywir a'r arbenigedd technegol cywir, gan gydbwyso'r pwysau cyffredinol ar adnoddau'r sefydliad ar yr un pryd[25]. Dywedodd fod bregusrwydd o ran staffio oherwydd, mewn rhai meysydd, dim ond un person sy'n meddu ar yr arbenigedd hynny, o ran staffio.

**47.** Mewn perthynas â datblygu canllawiau a chynlluniau, drwy ymgysylltu â sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod swm aruthrol o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn mynd rhagddo, gan nodi bod tystion LABC wedi canmol y gwaith a wnaed[26]. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"There's been a raft of consultations, there have been guidance workshops, we've spoken at conferences… and there have been circulars, every form of engagement that you could probably think of. So, we need to keep that up, as we move forward, but I think there's been very good engagement to date"*[27].

**48.** Mewn perthynas â thystiolaeth LABC nad oedd cynlluniau o amgylch Cam 2 yn ddigon clir, esboniodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y rhaglen wedi'i strwythuro mewn ffordd benodol, er mwyn peidio â llethu'r sector gyda maint y newid sydd ar ddod[28]. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… I can appreciate the desire to know more, because you know phase 2 is coming and you want to know what it is, but we're very keen that we concentrate on phase 1, get that implemented, and then we will move to phase 2".*

**49.** Aeth y Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Cynllunio ac Ynni ymlaen i ddweud y bu rhywfaint o ymateb negyddol ar wahân gan awdurdodau lleol bod cyflymder y newid yn rhy gyflym, a'u bod felly yn cyflwyno'r dull gweithredu fesul cam yn fwy bwriadol[29].

---

[25] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 23
[26] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 27
[27] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 27
[28] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 32
[29] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 36

**50.** Mewn perthynas â chynlluniau gweithredu lleol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol eu bod yn gefnogol i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn y maes hwn, gan nodi, er y bydd cynghorau yn ymwybodol o'r risgiau a'r adnoddau sydd ar gael, efallai na fydd y wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd mewn cynllun cyffredinol (sy'n rhywbeth y byddent yn ei annog)[30]. Aeth ymlaen i gadarnhau y byddai gweithgor, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a LABC, yn helpu i ddatblygu'r cynlluniau hyn.

**51.** Mewn perthynas ag uwchgynhadledd arfaethedig LABC, cadarnhawyd y byddai hyn hefyd yn cael ei drafod yn y gweithgor, gyda Llywodraeth Cymru yn awyddus iddi gael ei chynnal[31]. Eglurodd y Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Cynllunio ac Ynni:

> *"We think the Auditor General's report was an important step in raising awareness of the scale of challenges we face in this area. We are conscious that local authorities face challenges in all sorts of other areas of their business. The summit was a proposal designed, even if it's just in the short term, to generate a little bit more interest in the technical aspect of local authority service delivery, given that, in a post-Grenfell environment, that seemed to us to be worth attempting"*[32].

## Cynllunio'r gweithlu

**52.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn disgrifio sector rheolaeth adeiladu'r cynghorau fel un y mae newidiadau mewn demograffeg yn effeithio'n "ddifrifol" arno, gan nodi bod gwytnwch hirdymor y gwasanaethau hynny dan fygythiad.[33]. Gyda gweithlu hŷn, mae diwygio sylweddol yn peri risg o golli arbenigedd gyda swyddogion o bosibl yn dewis ymddeol neu adael y proffesiwn, yn lle cydymffurfio â gofynion newydd yn ymwneud â chofrestru a chymhwysedd[34].

[30] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 38
[31] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 46
[32] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 47
[33] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 25
[34] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 26

**53.** Ar adeg ei adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod 54 y cant o swyddogion rheolaeth adeiladu dros 50 oed, a dim ond 10 y cant o dan 30 oed.[35]. Esboniodd fod hyn yn amlygu'r "risgiau gweithredol a risgiau i barhad gwasanaethau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n debygol o brofi colled fawr o ran profiad a gwybodaeth pan fydd pobl yn ymddeol yn y degawd nesaf".

**54.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cymharu'r sefyllfa yng Nghymru â'r un yn yr Alban, lle mae llawer llai o syrfewyr fesul preswylydd (1 ar gyfer pob 23,361 o drigolion yng Nghymru, o gymharu â 10,633 yn yr Alban)[36].

**55.** Mae'r adroddiad yn cyfeirio at reolaeth adeiladu fel rhywbeth nad yw bellach yn cael ei ystyried yn "ddewis da o ran gyrfa", ac mae'r adroddiad yn esbonio:

> *"Nododd llawer o reolwyr a gyfwelwyd gennym eu bod wedi ymuno â'u hawdurdod lleol fel hyfforddai a'u bod wedi cael budd o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u cyfrifoldebau dros amser a'u bod wedi cael cymorth i ddatblygu eu gyrfaoedd yn y sefydliad. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi newid. Mae effaith cyni cyllidol wedi atal cyflogau rhag codi ac wedi lleihau nifer y staff i'r graddau nad yw rolau rheoli adeiladu mewn awdurdodau lleol bellach yn cael eu hystyried yn rhai deniadol yn ariannol a bod llai o gyfle staff i symud ymlaen yn eu gyrfa nag yn y gorffennol"[37].*

**56.** Nodir hefyd bresenoldeb cystadleuwyr o'r sector preifat, a'r cyfle i staff cymwysedig adael yn gymharol hawdd am gyflog gwell. Er bod hyn wedi bod yn broblem fawr yn hanesyddol, mae'r llif o staff o'r cyngor i fod yn hyfforddwyr cymeradwy wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf, gyda'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod cwmnïau yn y sector preifat bellach "hefyd yn dechrau cael trafferth recriwtio staff digon cymwysedig a phrofiadol"[38]. Yn wir, dywedodd cynrychiolwyr arolygwyr cymeradwy wrth dîm yr Archwilydd Cyffredinol eu bod yn canolbwyntio ar "dyfu eu gweithlu yn y dyfodol trwy raglenni hyfforddeion oherwydd diffyg argaeledd staff cymwysedig yng Nghymru a Lloegr".

[35] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 26
[36] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 26
[37] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 25
[38] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 31

**57.** Dywedir bod diffyg hyfforddeion yn y sector cyhoeddus yn broblem fawr, gyda dim ond saith hyfforddai ar waith yn 2022, a dim ond pedwar mewn rolau parhaol. Esboniodd rheolwyr rheolaeth adeiladu'r cynghorau fod hyn oherwydd diffyg "cefnogaeth gorfforaethol i gyflogi hyfforddeion a'r risg o golli staff sydd newydd gymhwyso i arolygwyr cymeradwy"[39].

**58.** Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen hefyd i nodi bod diffyg peirianwyr tân a phrinder syrfewyr sydd â gwybodaeth ddigonol am ddiogelwch strwythurol adeiladau uchel a systemau cladin [40].

**59.** Argymhellodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y dylid rhoi cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau ar waith, i liniaru risgiau i'r gweithlu. Dylai'r cynllun hwn ganolbwyntio ar hyfforddeion yn ogystal â phennu cymhwysedd a gwella amrywiaeth[41]. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ac ymrwymodd i weithio gyda CLlLC a thimau prentisiaeth ac addysg perthnasol i weithredu ar risgiau gweithlu a nodir yn yr adroddiad.

**60.** Mewn datganiad llafar i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd gyllid cyfatebol i gefnogi gwaith LABC i recriwtio a hyfforddi wyth swyddog dan hyfforddiant i Gymru, gyda charfannau pellach i ddilyn.[42] Eglurodd y byddai'r hyfforddeion yn dysgu wrth wneud y gwaith, wrth gwblhau eu cymwysterau proffesiynol, a bod y trefniadau eisoes wedi dechrau.

**61.** Roedd argymhellion pump a chwech, a gyfeiriwyd at gynghorau, yn ymdrin â lliniaru risgiau ar lefel leol, gan gynnwys risgiau i'r gweithlu a'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant i ddangos cymhwysedd[43]. Roedd argymhelliad saith hefyd yn cyfarwyddo cynghorau i weithio ar y cyd i fynd i'r afael â risgiau i'r gweithlu.

### Safbwynt LABC

**62.** Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol LABC wrth y Pwyllgor fod pedair swydd dan hyfforddiant wedi cael ei hariannu yng Nghymru, gan ddechrau ym mis Awst 2022. Ariannwyd y rhain gan Reolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyllid grant cyfatebol o £350,000, i roi cyfanswm

[39] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 27
[40] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 27
[41] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 13
[42] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 28 Tachwedd 2023, paragraff 349
[43] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 13

o wyth hyfforddai a ariennir yng Nghymru[44]. Er y croesawyd y cam cychwynnol hwn, roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn cydnabod bod angen iddo weld llawer mwy yn y system, gan fynd ymlaen i ddweud:

> *"I think any programme needs to be a continuous programme, to be honest. It's an ageing profession with people leaving at the other end, so I think it needs a constant programme to see where we get to over, maybe, the next 18 months to two years to see where we get to in terms of the profession, and whether the introduction of trainees encourages other people to come into the industry. And the report mentions trainees, young people not being interested in building control. We had 15 roles advertised and we had nearly 1,000 applicants for those 15 roles… Of our trainees that we've taken on so far, about 30 per cent are female, so there is good diversity as well. So, the programme is working really, really well, and we would love the opportunity to continue and build on that programme"*[45].

**63.** Eglurodd Cadeirydd LABC Cymru fod tystiolaeth ym mhob awdurdod lleol o ymdrechion i ddechrau eu cynlluniau hyfforddeion neu brentisiaethau eu hunain, gan esbonio:

> *"That usually comes with a sacrifice higher up in the hierarchy of the building control section, where they'll lose maybe a senior post. There is my own example in Swansea where we sacrificed a senior post to create two apprenticeships, and that was a complete success… Obviously, there are difficulties with austerity and budget situations in all authorities. There's that inability to invest"*[46].

**64.** Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol LABC mai cyllid oedd y rhwystr mwyaf i gael mwy o hyfforddeion, gan nodi bod y llwybrau addysg eisoes ar waith[47].

**65.** Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr am yr hyn a elwir yn "hawliau tad-cu", a awgrymwyd yn flaenorol i swyddogion Archwilio Cymru yn ystod cyfweliadau fel

[44] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 77
[45] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 82
[46] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 84
[47] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 88

modd o gadw gweithwyr proffesiynol profiadol yn y proffesiwn, heb orfod cydymffurfio â gofynion cofrestru a chymhwysedd newydd[48].

**66.** Roedd safbwyntiau cymysg am hyn, gyda Chyfarwyddwr Gweithredol LABC yn cwestiynu a fyddai mabwysiadu darpariaeth o'r fath yn cynrychioli'r newid sylweddol sy'n ofynnol yn ôl Ymchwiliad Hackitt[49]. I'r gwrthwyneb, roedd Cadeirydd LABC Cymru o'r farn bod lle i'r hawliau hyn o ystyried y pwysau a deimlir gan y gweithlu, gan egluro:

> *"… there are a lot of officers out there who've got 40 years' experience—because that's where our risk is at the minute: 35, 40 years' experience. They're practising on a daily basis at that very high level on high-risk properties and buildings, and come 1 April they're not competent anymore. I think it's a step too far. I understand the registration, and we can register all our building control officers, but I think the competency aspect is causing us a lot of problems at that higher end with the experienced staff, who are saying, 'Well, I've 40 years' service, I've been practising at this level for as long as that, and now they say I'm not competent. I'm not going to do these competency tests', and they are leaving"*[50].

**67.** Aeth ymlaen i egluro bod llawer o weithwyr proffesiynol profiadol, trwy ymarfer yn barhaus, gyda'r aelodaeth broffesiynol gysylltiedig a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn dangos tystiolaeth o'u cymhwysedd parhaus[51].

**68.** O ran y cysyniad o ddarpariaeth ar ffurf hybiau, lle mae timau'r cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni prosiectau cyffredin (megis digideiddio), roedd y ddau ymatebydd yn gadarnhaol ynghylch y syniad ond ni allai'r naill na'r llall roi enghraifft ohono ar waith yng Nghymru[52]. Pan ofynnwyd iddo am fanteision dull o'r fath, esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol LABC:

> *"They have obviously got economies of scale in terms of resources. Yes, they cover a bigger area than the individual local authorities, but*

[48] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 89
[49] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 90
[50] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 92
[51] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 94
[52] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 98, paragraff 100 a pharagraff 106

> *they've got bigger teams, so they've got the ability to bring in trainees and to train their own. And they've got a little bit more freedom, I think, from the local authorities in terms of how they can operate and what they can do as an organisation that's a shared service and not part of the local authority"*[53].

**69.** Cadarnhaodd eu bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gasglu rhywfaint o wybodaeth am gydweithio, gan gynnwys enghreifftiau o'r modelau amrywiol ar gyfer gwneud hynny[54]. Eglurodd Cadeirydd LABC Cymru:

> *"It's definitely something that will need to be done, whether it's regional working or hubs of expertise to take account of where we're lacking in whatever experience. It's probably going to be at the higher end, the high-risk stuff, where there'll need to be that coming together… We did try to do it ourselves many years ago, probably about 15 years ago now, where we looked to deliver a type of regional working, a coming together, but unfortunately, we didn't have buy-in at that time from managers in particular. Personally, I think it needs to be driven with the assistance of the Welsh Government, to make sure that it happens".*

### Ymateb Llywodraeth Cymru

**70.** Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol gydnabod bod cynllunio gweithlu'r sector yn fater arwyddocaol, gan nodi nad oedd y pwyslais a roddwyd arno yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn peri syndod iddi[55]. Esboniodd:

> *"The sector has an ageing workforce and, as the report pointed out, not diverse… I think there's quite a lot to do to raise the profile of the attractiveness of the sector, because it does have an awful lot of interest".*

**71.** Nododd fod ymchwil Llywodraeth Cymru wedi dangos llawer o bethau cadarnhaol o ran gweithio yn y sector, ond bod gwaith i'w wneud i godi proffil

[53] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 102
[54] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 103
[55] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 49

hynny, a bod hynny'n rhywbeth i'r sector yn ei gyfanrwydd, nid yn unig i Lywodraeth Cymru[56]. Aeth ymlaen i nodi bod y gweithgor gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a LABC yn edrych ar y materion tymor hwy yn y maes hwn a bod LABC yn paratoi papur opsiynau ar hyn o bryd i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud ynghylch rhai o'r heriau hyn o ran y gweithlu. Fodd bynnag, nododd fod rhai o'r heriau yn hirsefydlog ac y byddai'n cymryd amser i fynd i'r afael â hwy[57].

**72.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Cynllunio ac Ynni fod y sector, trwy waith LABC, yn llwyddo i ddenu pobl iau i'r sector a bod tystiolaeth eu bod wedi llwyddo i wyrdroi'r sefyllfa[58]. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod cynllun LABC, sy'n cynnwys hyfforddeiaeth wedi'i hariannu a chymhwyster achrededig, gyda chyflog cychwynnol cystadleuol, wedi gwneud y gwahaniaeth i LABC[59].

**73.** Pan ofynnwyd iddi sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid mewn perthynas â hyfforddiant i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn, esboniodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

> *"We've had some engagement last year with our apprenticeship colleagues in the Welsh Government, and we have had discussions with education colleagues. I think there's a lot more for us to do there, to be honest. I think we could provide more focus"*[60].

**74.** Aeth ymlaen i nodi bod problem o ran adnoddau ac y bu'n rhaid i'r Llywodraeth flaenoriaethu gwaith a chanolbwyntio ar yr elfennau cofrestru. Nododd y Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Cynllunio ac Ynni fod LABC wedi meithrin perthynas â cholegau addysg bellach yn Lloegr, ond bod rhywbeth tebyg gydag un neu fwy o sefydliadau Cymreig bellach yn angenrheidiol, er mwyn sicrhau bod gennym gadwyni cyflenwi lleol a phobl yn dod drwodd i'r maes busnes hwn[61].

---

[56] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 50
[57] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 51
[58] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 52
[59] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 53
[60] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 58
[61] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 59

**75.** O ran casglu data'r gweithlu, esboniodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod casglu data yn mynd rhagddo, gydag amserlen ar gyfer casglu data yn y modd mwyaf systematig sy'n parhau i mewn i'r flwyddyn nesaf[62].

**76.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am ei hasesiad o effaith y newidiadau ar y gweithlu a'i allu i ymateb, yn ogystal â chamau lliniaru posibl megis hawliau tad-cu. Dywedodd y canlynol wrth ymateb:

> *"We've got a lot of sympathy for people working in the sector, but that major change is needed—that's what was recommended. I can understand, if you're a very experienced, long-standing professional, to suddenly be asked to demonstrate your competence, to register and to be able to evidence your competence could be a bit demoralising, really, for people. We are aware that this hasn't been universally welcomed, this registration and this assessing-the-competence assessment"*[63].

**77.** Esboniodd, o ddata'r Llywodraeth ar adeg y sesiwn, fod 75 y cant o arolygwyr wedi dechrau'r broses gofrestru, cyn y dyddiad cau, sef 1 Ebrill[64]. Cydnabu'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chael digon o bersonél yn eu lle erbyn y dyddiad cau, gan fynd ymlaen i egluro:

> *"If necessary, we would consider some form of transitional arrangements, maybe a smoother pathway, slightly elongated, but that's not the plan at the moment. For anybody in the building control profession who may view this evidence session, the plan is still for 1 April, but, as I say, we keep a watching brief and a watching brief on the risks associated with it over time"*[65].

**78.** Mewn perthynas â'r risg o golli aelodau hŷn o'r proffesiwn, dywedodd y canlynol:

---

[62] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 61
[63] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 66
[64] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 67
[65] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 68

> *"… there will be individuals there who will decide that it's not for them and they're not going to put themselves through that process and maybe retire slightly earlier than they thought. But those numbers are very small; they're in single figures, Chair. And not without consequence, because what I should emphasise is that they are predominately what are called class 3 inspectors, and that is a very senior inspector and those skills are in short supply. So, I don't think we would give anybody a… pass to not register, because we need to have everybody up to a single system of registration that is really, really clear as part of the new safety regime, but we may provide a smoother glide path into that, if that makes sense"*[66].

**79.** Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod wyth unigolyn, allan o gyfanswm o tua 132 o arolygwyr adeiladu yng Nghymru, wedi ystyried gadael a'u bod yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n agos yn gyffredinol at ymddeoliad[67].

**80.** Mewn perthynas â hyfforddeiaethau, tynnwyd sylw y Cyfarwyddwr Cyffredinol at dystiolaeth LABC a oedd yn nodi y byddai wyth hyfforddai newydd yn annigonol, a gofynnodd y Pwyllgor a oedd Llywodraeth Cymru yn dymuno cynyddu'r ffigur hwn.[68]. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol gydnabod nad oedd y nifer yn sylweddol, ond dywedodd ei fod yn ddechrau cadarnhaol[69]. O ran cynyddu'r niferoedd hynny, dywedodd y canlynol:

> *"… it does require funding and I suppose that would be a decision for Ministers to decide on the priority and how they want to allocate their budget. And I think we also want to look at the retention of those colleagues in the building control sector"*[70].

[66] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 69
[67] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 71
[68] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 72
[69] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 73
[70] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 74

**81.** Cydnabu fod cyflog y sector cyhoeddus yn rhwystr i ddenu pobl i'r proffesiwn, gan gydnabod y gallai pwysau cyflog olygu nad yw'r swyddi mor gystadleuol â'r rhai mewn sectorau eraill[71].

## Dull marchnad gymysg

**82.** Mae marchnad gymysg o wasanaethau rheolaeth adeiladu yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi bodoli yng Nghymru a Lloegr ers 1984. I bob pwrpas, roedd hyn wedi arwain at gystadleuaeth rhwng gwahanol wasanaethau, yn ogystal â galluogi'r datblygwr i ddewis eu harolygydd.

**83.** Dylai arolygwyr cymeradwy roi gwybod i gynghorau am unrhyw ddatblygiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau, er mwyn cymryd camau gorfodi. Fodd bynnag, canfu'r Archwilydd Cyffredinol nad yw hyn yn digwydd yn aml[72]. Mae ei adroddiad yn awgrymu mai'r rheswm am hyn yw'r gystadleuaeth rhwng y ddwy ochr, gyda'r adroddiad yn nodi:

> *"Mae hyn yn wendid cynhenid yn system y farchnad gymysg a gyflwynwyd yn y 1980au ac mae'n adlewyrchu rôl groestynnol awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am blismona'r gyfundrefn rheoli adeiladu ond sydd hefyd mewn cystadleuaeth ag arolygwyr cymeradwy i sicrhau gwaith"*[73].

**84.** Mae'n mynd ymlaen i egluro bod cynnal perthnasoedd â datblygwyr yn ystyriaeth bwysig i arolygwyr cymeradwy hefyd, er mwyn sicrhau busnes cyson, a all "annog arolygwyr cymeradwy i beidio â bod eisiau cymryd camau gorfodi"[74].

**85.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn esbonio bod deddfwriaeth wahanol yn yr Alban yn golygu mai cynghorau yw'r unig gyrff sy'n darparu gwasanaethau rheolaeth. Mae'r timau o "ddilyswyr adeiladu" yn cael eu penodi gan Weinidogion yr Alban am gyfnod penodol o chwe blynedd i ddarparu gwasanaethau yn eu hardal[75]. Caniateir, o dan y ddeddfwriaeth, i gyrff preifat gael eu penodi, ond nid yw hyn wedi digwydd hyd yma.

[71] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 77
[72] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 5
[73] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 32
[74] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 32
[75] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 52

**86.** Wrth wneud y penodiadau hyn, mae'n ofynnol i Weinidogion yr Alban ystyried cymhwysedd, cymwysterau, atebolrwydd cyhoeddus a didueddrwydd y dilyswyr adeiladu posibl. Pennir hyn ar sail canllawiau a geir mewn Fframwaith Gweithredu, sy'n nodi sut y gall dilyswyr fodloni'r meini prawf hyn[76]. Mae'r oruchwyliaeth sectoraidd hon wedi arwain at fabwysiadu system hybiau, er mwyn cyflwyno newidiadau mewn ymateb i drychineb Tŵr Grenfell[77].

**87.** Mae argymhelliad 3 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull marchnad gymysg er mwyn mynd i'r afael â'i wendidau a'i gryfderau, gan fesur eto'r system amgen sydd ar waith yn yr Alban[78]. Yn ei hymateb i'r adroddiad, nododd Llywodraeth Cymru ei bod wedi adolygu'r dull gweithredu o'r blaen, er nad yw'r adolygiad hwn wedi'i gyhoeddi ac ni chafodd ei ystyried fel rhan o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol[79].

**88.** Aeth Llywodraeth Cymru ymlaen i nodi y byddai'n adolygu sefyllfa'r farchnad gymysg ymhellach, wrth ddisgwyl gwaith ymchwil gan Lywodraeth y DU.[80]. Mae hefyd yn nodi y gwnaed penderfyniad i ganiatáu i Awdurdodau Lleol yn unig allu ymgymryd â'r swyddogaethau rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladau a ystyrir yn adeiladau risg uwch, yn unol ag argymhellion ymchwiliad Hackitt[81].

**89.** Cytunodd y tystion a oedd yn cynrychioli LABC fod y sefyllfa yn yr Alban yn wahanol i'r un yng Nghymru, o ystyried absenoldeb marchnad gymysg[82]. Roedd y ddau dyst yn canmol y defnydd o system hybiau, fel yr un a ddefnyddir yn yr Alban[83], er i Peter Richards ddweud ei fod yn amau'n fawr ai dyna fydd y ffordd ymlaen, ond y byddai'n gwireddu breuddwyd iddo ef yn bersonol os mai dyna yw'r ffordd ymlaen.

**90.** Roedd y ddau yn cefnogi adolygiad o'r dull marchnad gymysg a chyfeiriodd Peter Richards y Pwyllgor at gasgliadau Ymchwiliad Hackitt.[84], a ddywedodd:

---

[76] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 52
[77] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 52
[78] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 13
[79] Archwilio Cymru, Ymateb sefydliadol – Llywodraeth Cymru
[80] Archwilio Cymru, Ymateb sefydliadol – Llywodraeth Cymru, tudalen 4
[81] Archwilio Cymru, Ymateb sefydliadol – Llywodraeth Cymru, tudalennau 4-5
[82] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 114
[83] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 114 a paragraff 117
[84] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 122

> *"At present the person undertaking the building work can choose and purchase who specifically provides their building control regulatory oversight. This situation appears to be unique across the UK regulatory environment"*[85].

**91.** Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

> *"These inherent structural weaknesses need to be properly addressed to restore confidence and clarity to the system"*[86].

## Barn Llywodraeth Cymru

**92.** Pan ofynnwyd iddi am natur adolygiad Llywodraeth Cymru o'r dull marchnad gymysg, eglurodd y Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Cynllunio ac Ynni:

> *"I don't think that we intended to suggest that there'd been some major review of that question. I think what was intended was to refer to the work we did as part of developing our response to the Hackitt recommendations, to consider all sorts of questions, including the issue of the mixed market in this space. So, there wasn't a great, huge fundamental exercise conducted called 'a review', but we did review this question as part of many questions we looked at… we're still having to contemplate the strengths and weaknesses of the current arrangements, but at the moment, we are supportive of the mixed market in this area"*[87].

**93.** Roedd yn cydnabod bod cwestiynau pwysig ynghylch y berthynas rhwng sefydliadau masnachol ac awdurdodau lleol y mae angen eu hystyried yn y maes hwn[88].

**94.** Mewn perthynas â'r nifer isel o gamau gorfodi sy'n cael eu cyfeirio at gynghorau o'r sector preifat, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y canlynol:

---

[85] Building a Safer Future – Independent Review of Building Regulations and Fire Safety: Final Report, Mai 2018, tudalen 41
[86] Building a Safer Future – Independent Review of Building Regulations and Fire Safety: Final Report, Mai 2018, tudalen 42
[87] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 86
[88] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 88

> *"One of the key concerns, I think, of the Hackitt report was that they had some serious questions about the private sector and enforcement, in the sense of: was the private sector disincentivised to raise enforcement issues for fear of losing business…*
>
> *…I think for us, phase 2 of our work is going to be really, really important in that regard, because that's where we're going to have the concept of the duty holder. So, people will become duty holders, and there will be individual accountability. So, if you're public sector or private sector, you will be a duty holder, and therefore, if something goes wrong, regardless of which sector you are in, you are the accountable person for that…"*[89].

**95.** O ran manteision model hybiau tebyg i'r Alban, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod llawer o bethau da o ran y model hwnnw o gydweithio, gan nodi ei fod yn rhywbeth yr oedd ganddi ddiddordeb mewn gweld awdurdodau lleol yn mynd ar ei drywydd ymhellach[90]. Nododd y byddai'n ddymunol cyfuno adnoddau a datblygu a rhannu arbenigedd. Nododd hefyd y byddai'n cynyddu pŵer awdurdodau lleol i wario oherwydd y byddent yn gallu cydweithio ar hyfforddiant a datblygu.

**96.** Nododd fod LABC yn gweithio ar bapur opsiynau sy'n ystyried y modelau ar gyfer cydweithio, fel rhan o'r gweithgor sydd mewn lle rhwng y corff hwnnw, Llywodraeth Cymru a CLlLC.

## Ein barn ni

**97.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg manylion a roddwyd i'r sector ynghylch gweithredu'r gofynion newydd, gyda'r Archwilydd Cyffredinol a chynrychiolwyr y sector yn pryderu bod rhai manylion ac ymarferoldeb y newidiadau yn parhau i fod yn aneglur.

**98.** Er gwaethaf hyn, mae'n galonogol clywed gan LABC bod yr amserlen ar gyfer gweithredu newidiadau yn un y gellir ei chyflawni'n realistig, er gwaethaf yr heriau cysylltiedig. Bydd y Pwyllgor yn monitro cyflymder y gwaith cyflawni, wrth i'r gofynion newydd gael eu cyflwyno erbyn 2025, er mwyn sicrhau bod gan y diwydiant y cymorth a'r manylion sydd eu hangen arno i roi'r newidiadau ar waith.

[89] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraffau 105-106
[90] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 109

**99.** Mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryderon ynghylch dyfodol y gweithlu ac mae'n hanfodol bwysig mynd i'r afael â'r mater hwn, er mwyn sicrhau bod y sector yng Nghymru yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn effeithiol. Rydym yn nodi 'bregusrwydd' trefniadau presennol y gweithlu ac mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen dull mwy ymyraethol, ynghyd â chyllid uniongyrchol, i fynd i'r afael â'r broblem. Mae effaith cystadleuwyr yn y sector preifat wedi'i nodi yn ein hadroddiad a bydd realiti'r dull marchnad gymysg yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**100.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylid rhoi cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau ar waith. Byddem yn gwerthfawrogi derbyn copi o unrhyw gynllun, pan fydd ar gael.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau sydd wedi'i godeiddio mewn dogfen sy'n egluro ei nod a'i dyheadau ar gyfer y sector. Dylid rhannu copi o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau hwn gyda'r Pwyllgor, pan fydd ar gael.

**101.** Mae cyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru i gefnogi recriwtio hyfforddeion i'w groesawu, ynghyd â chadarnhad y bydd carfannau pellach yn dilyn. Mae'n hanfodol bwysig bod y diwydiant yn symud i ddemograffeg iau, er mwyn sicrhau bod ganddo ddyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd bod yr arbenigedd hwn, sy'n cael ei ddatblygu gyda chyllid o'r pwrs cyhoeddus, yn cael ei gadw o fewn y diwydiant ac nad yw'n cael ei golli i'r sector preifat.

**102.** Rydym yn nodi nad oedd cynrychiolwyr LABC yn teimlo bod nifer yr hyfforddeion a ariennir yn ddigonol i ateb yr her, er bod rhai arwyddion bod y sefyllfa'n gwella.

**103.** Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i amlinellu ei chynlluniau cyllido ar gyfer 2024-25, yn ogystal â'r ymdrechion sy'n cael eu rhoi ar waith i'w sicrhau bod digon o hyfforddeion yn cael eu recriwtio a'u cadw yn y diwydiant.

**Argymhelliad 2.** Dylid rhannu manylion am unrhyw gyllid cyfatebol pellach ar gyfer recriwtio hyfforddeion ar gyfer 2024-25, a thu hwnt, gyda'r Pwyllgor, ynghyd â manylion am y dull sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddeion yn aros o fewn y diwydiant ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.

**104.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod enghreifftiau o awdurdodau lleol yn ceisio cyflwyno cynlluniau hyfforddeion neu brentisiaethau, fodd bynnag,

cydnabyddir yn y dystiolaeth fod y cynlluniau hyn weithiau'n dod ar draul y gost o gael aelodau mwy profiadol o staff o ran y gyllideb.

**105.** Er ei bod i'w chanmol bod awdurdodau lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn, mae'n destun pryder y gallai dull ad hoc arwain at ddarlun a threfniadau anghyson ar gyfer y proffesiynau ledled Cymru, er bod rhywfaint o dystiolaeth o awdurdodau lleol yn cydweithio i gyflawni hyn. Mae angen hyfforddeion ledled Cymru, a barn y Pwyllgor yw y dylid rhoi fframwaith hyfforddi a phrentisiaeth cenedlaethol ar waith, i sicrhau bod digon o arbenigedd a dull gweithredu cyson ledled Cymru.

**106.** Gallai Llywodraeth Cymru roi gwerth, wrth weithredu cynllun o'r fath, drwy ddefnyddio arbenigedd o'i thimau polisi arbenigol, gan gynnwys timau Prentisiaethau ac Addysg (ymhlith eraill), i helpu i hwyluso a denu'r ymgeiswyr gorau i'r proffesiwn.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector rheolaeth adeiladu i roi cynllun cenedlaethol ar waith ar gyfer recriwtio hyfforddeion a phrentisiaid, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. Gallai'r cynllun cenedlaethol hwn gael ei gydlynu gan Lywodraeth Cymru a'i ategu gan y cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau.

**107.** Yn olaf, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y cysyniad o ddull model hybiau rhanbarthol, a allai sicrhau darpariaeth well a mwy cyflawn ledled Cymru. Mae arbedion maint posibl o ran adnoddau, gyda chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mwy effeithiol a chyflawn, a thîm ehangach yn cwmpasu gwahanol arbenigedd a phrofiad.

**108.** Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod LABC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gasglu gwybodaeth am y ffordd hon o weithio, ynghyd ag enghreifftiau o fodelau posibl i'w gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod cyfle i gydweithio ymhellach, ond rydym yn cytuno â Chadeirydd LABC Cymru fod angen ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru.

**109.** O'r herwydd, hoffai'r Pwyllgor wybod mwy am ganlyniad y gwaith sy'n cael ei wneud gan y rhanddeiliaid a grybwyllir uchod, yn ogystal â bwriadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i unrhyw waith sy'n ymwneud â modelau cydweithio, gan gynnwys hybiau rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru, Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gael ei rannu gyda ni, unwaith y bydd ar gael. Pan anfonir hwn, hoffai'r Pwyllgor hefyd

ddysgu mwy am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu unrhyw gynigion sydd wedi'u cynnwys yn allbwn y gwaith hwnnw.

**110.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y dull marchnad gymysg, gan gydnabod ei fod wedi bod ar waith ers peth amser. Rydym yn anghyfforddus â'r cysyniad bod gweithiwr proffesiynol rheolaeth adeiladu yn y sector preifat yn mynd yn orddibynnol ar un datblygwr a'r gwrthdaro buddiannau cysylltiedig a allai godi yn yr amgylchiadau hynny. Mae'n arbennig o bryderus nodi canfyddiad yr Archwilydd Cyffredinol y gallai arolygwyr preifat cymeradwy gael eu hannog i beidio â chymryd camau gorfodi oherwydd yr angen i gynnal perthnasoedd parhaus â datblygwyr.

**111.** Mae hefyd yn destun pryder bod gweithredwyr y sector preifat yn aml yn gallu dewis a dethol eu gwaith, yn aml yn gallu ymgymryd â'r tasgau symlach ac nid o reidrwydd yn lleddfu'r pwysau ar awdurdodau lleol.

**112.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod model yr Alban gryn dipyn yn well na'r model sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr, fodd bynnag, rydym yn nodi hefyd yr heriau sylweddol o newid cyfeiriad y diwydiant ar ôl cymaint o flynyddoedd fel marchnad gymysg. Er gwaethaf hyn, mae'r Pwyllgor yn teimlo y gallai fod yn bosibl taro gwell cydbwysedd, sy'n lleihau cyfranogiad darparwyr preifat.

**113.** Mae'n galonogol clywed bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad pellach o ddull y farchnad gymysg, a chredwn fod wir angen hyn. Dylid rhannu canlyniad yr adolygiad hwn â'r Pwyllgor, a dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn wrth rannu'r adolygiad, ynghyd â'i chynigion ar gyfer rhoi newidiadau ar waith (os o gwbl), er enghraifft system debyg i'r hyn a geir yn yr Alban.

**Argymhelliad 5.** Dylid rhannu canlyniad yr adolygiad o'r farchnad gymysg gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd ar gael, ynghyd â datganiad o fwriad gan Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau a diwygiadau canlyniadol yr hoffai eu gwneud i'r system. Dylid ystyried hefyd a yw model hybiau tebyg i'r Alban, naill ai fel rhan o ddull marchnad gymysg neu ddull awdurdod lleol, yn fuddiol ac a ellid ei weithredu yng Nghymru.

# 4. Cynllunio ariannol, monitro a chraffu

## Rheolaeth ariannol

**114.** Mae Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010 ("y Rheoliadau") yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethiant ariannol gwasanaethau rheolaeth adeiladu cynghorau. Nod y Rheoliadau yw galluogi cynghorau i fod yn deg ac yn dryloyw o ran sut y codir ffioedd am wasanaethau. Prif egwyddor y Rheoliadau yw y dylai cynghorau adennill eu costau llawn, ac na ddylai defnyddwyr gwasanaethau ond talu am y gwasanaeth y maent yn ei gael.

**115.** Yn sgil hynny, mae'r Rheoliadau'n rhannu gweithgareddau yn waith y gellir codi tâl amdano, gwaith na ellir codi tâl amdano a gwasanaethau rheolaeth adeiladu eraill. Rhaid i waith y gellir codi tâl amdano gael ei ariannu drwy ffioedd, tra bod gwaith na ellir codi tâl amdano a gwasanaethau rheolaeth adeiladu eraill i'w hariannu gan y cyngor.

**116.** Rhaid i gynghorau adolygu eu ffioedd yn flynyddol i sicrhau bod yr incwm o weithgarwch y codir tâl amdano mor agos â phosibl at y costau yr eir iddynt. Mae'n bwysig iawn, felly, monitro sefyllfa o ran adennill y costau yr aed iddynt ac ail-gyfrifo'r ffioedd yn rheolaidd.

**117.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod dulliau pennu ffioedd yn amrywio'n sylweddol ac nad yw llawer ohonynt yn cydymffurfio â Rheoliadau, gan nodi:

> *"O'r 12 awdurdod a ymatebodd i'n hymarfer casglu data ac a ddarparodd wybodaeth yn disgrifio eu proses pennu ffioedd, nid oedd naw yn cydymffurfio. Gan amlaf oherwydd eu bod wedi cymhwyso ymgodiadau chwyddiannol penodedig; wedi copïo diwygiadau o ffioedd gan awdurdodau cyfagos; wedi defnyddio rhestrau cenedlaethol cyfartalog o gyfraddau i bennu eu taliadau hwy eu hunain; a/neu heb dangos sut yr oeddent wedi ystyried amgylchiadau lleol penodol sy'n sail i godi tâl megis eu strwythur staffio, ailgodi tâl yn ganolog a'r cyd-destun gweithredu lleol"*[91].

**118.** Ar adeg eu gwaith maes, nododd nifer o awdurdodau nad oeddent yn adolygu ffioedd yn flynyddol a chyfaddefodd nifer lai ohonynt nad oeddent wedi

[91] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 35

addasu ffioedd i adlewyrchu cost wirioneddol gwasanaethau ers blynyddoedd lawer.[92] Mewn un achos, nid oedd ffioedd wedi newid ers 2012.

**119.** Yn sgil hynny, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad yw llawer o awdurdodau lleol yn codi ac yn pennu ffioedd yn unol â'r Rheoliadau a chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Yn wahanol i hynny, yn yr Alban, caiff ffioedd eu gosod yn ganolog a'u pennu gan Lywodraeth yr Alban.

**120.** Fel rhan o waith maes ei swyddfa, nododd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"Cymysg oedd ymwybyddiaeth o'r mater hwn ymhlith swyddogion. Nid yw rhai yn ymwybodol o berfformiad ariannol eu gwasanaeth yn bennaf oherwydd bod rheolaeth ar gyllid yn nwylo arbenigwyr y tu allan i'r gwasanaeth nad ydynt yn ymwneud â rheoli adeiladu. Roedd eraill yn ymwybodol o ofynion y rheoliadau ond yn disgrifio'r pwysau ar gyllidebau a oedd yn rhoi anogaeth i godi ffioedd neu ddiffyg gwybodaeth am ofynion y rheoliadau yn gorfforaethol. Mae hyn yn peri pryder mawr ac yn peri risgiau sylweddol i sicrhau gwerth am arian o'r gwasanaeth"*[93].

**121.** Roedd argymhelliad chwech yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y dylai cynghorau fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar waith rheolaeth adeiladu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau[94] drwy:

- sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;
- adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau;
- sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a

---

[92] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 35
[93] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 36
[94] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 14

- diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau.

**122.** Roedd cynrychiolwyr LABC yn cytuno bod y dull a ddefnyddir ar draws cynghorau Cymru yn amrywio[95]. Eglurodd Peter Richards mai ychydig oedd yn gallu defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i neilltuo unrhyw warged a wnaed, gan ychwanegu bod llawer o enghreifftiau o hyn yn dod i ben yn y gronfa gyffredinol.[96]

**123.** Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae LABC wedi cynnal cyfarfodydd â'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i drafod hyfforddiant rheoli ariannol ac i ddeall yn well yr hyn sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau. Y bwriad yw y bydd hyn wedyn yn llywio'r uwchgynhadledd rheolaeth adeiladu arfaethedig, a drefnir gan LABC gyda chynghorau lleol.[97]

**124.** Nid oedd yr un tyst o LABC yn gallu nodi achosion o unrhyw gosbau, canlyniadau eraill nac unrhyw waith monitro ehangach o ran rheolaeth ariannol ar reolaeth adeiladu[98].

**125.** Pan ofynnwyd iddi am ei hymateb i ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod yr argymhellion yn rhesymol[99]. Pan ofynnwyd iddi am y canlyniadau i awdurdodau lleol sy'n methu â chymhwyso'r Rheoliadau yn ôl y bwriad, eglurodd fod dyletswydd arnynt i ddilyn gweithdrefnau priodol ac arferion priodol, fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth[100].

## Monitro perfformiad

**126.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oes fframwaith cenedlaethol cytunedig ar gyfer adrodd ar berfformiad gwasanaethau rheolaeth adeiladu a diogelwch adeiladau yng Nghymru. Yn niffyg cyfres gadarn o fesurau cenedlaethol i reoli a gwerthuso perfformiad gwasanaethau, mae'r rhan fwyaf o

---

[95] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraffau 130-131
[96] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 130
[97] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 131
[98] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 135 a pharagraff 137
[99] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 111
[100] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 113

gynghorau yn canolbwyntio ar adrodd yn erbyn cyfres gul o fesurau, gan gynnwys cyfran o'r farchnad, boddhad cwsmeriaid, a chyflymder gwasanaeth.[101]

**127.** Mae'r adroddiad yn nodi:

> *"Er bod pob un o'r rhain yn bwysig ac yn berthnasol, nid ydynt yn darparu digon o fanylion i ddeall na barnu effeithiolrwydd gwasanaethau rheoli adeiladu. Er bod amseroldeb yn ffactor allweddol wrth weinyddu system rheoli adeiladu effeithlon, mae'r mesur yn rhoi pwys ar ymdrin â llawer iawn o geisiadau yn yr amser byrraf posibl, heb unrhyw ystyriaeth i ansawdd y gwaith a wneir ac nad yw'n rhoi unrhyw sicrwydd bod y gwaith wedi'i wneud yn ddiogel, bod risgiau wedi'u lleihau, a bod diogelwch cyffredinol deiliaid adeilad wedi'i wella."*[102]

**128.** Ar y llaw arall, yn yr Alban mae cynghorau'n adrodd eu perfformiad i Lywodraeth yr Alban o dan fframwaith perfformiad cenedlaethol, sy'n darparu data mesuradwy i Weinidogion yr Alban allu gwerthuso a yw gwasanaethau'n cyflawni eu rhwymedigaethau deddfwriaethol[103].

**129.** Roedd argymhelliad 4 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio'r sector rheolaeth adeiladu, gan argymell creu fframwaith perfformiad cenedlaethol ynghyd â safonau gwasanaeth clir i "hybu cysondeb o ran y gwasanaethau". Roedd yn galw hefyd am gael mesurau deilliant i fonitro perfformiad a fframwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer craffu.[104]

**130.** Yn ei hymateb, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad gan awgrymu y câi fframwaith perfformiad cenedlaethol ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024, yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd eisoes ym mis Medi 2022[105].

**131.** Dywedodd Peter Keates o LABC wrth y Pwyllgor:

---

[101] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 41
[102] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 41
[103] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 42
[104] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 13
[105] Audit Wales, Ymateb sefydliadol – Llywodraeth Cymru, p4

> *"LABC operates a quality management system through ISO 9001 and through the British Standards Institute. We fully align that to the operational standards for building safety. At present, 20 of the 22 Welsh authorities are signed up to our British Standards quality management system; the two that aren't are Powys and Monmouthshire, and I assume they have their own system in place. That doesn't cover everything and it doesn't cover the areas in the report that were criticised. We're very happy to work with Ministers to discuss providing wider oversight in Wales moving forward"*[106].

**132.** Esboniodd Peter Richards:

> *"We have performance criteria that are covered in a team brief, for example, where we look at finance, we look at performance in terms of plans, turnaround, inspections, complaints, all that sort of stuff. So, it's going on, but it's not formalised across the 22, but that will be something"*[107].

**133.** Aeth Peter Keates ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor y byddai LABC yn hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r fframwaith perfformiad cenedlaethol, gan egluro y gallai eu profiad eang fod yn ddefnyddiol[108].

**134.** Pan ofynnwyd a oedd y cynllun ar y trywydd iawn i gael ei gyhoeddi, o ystyried mai'r dyddiad targed oedd mis Ionawr 2024, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod rhannau gwahanol i'r fframwaith perfformiad a bod rhai rhannau (y Rheolau Safonau Gweithredol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol) wedi'u cyhoeddi[109]. O ran yr elfennau nad oeddent wedi'u cyhoeddi, dywedodd:

> *"… we're still working through the how we will monitor and have oversight of the local authority performance part of the performance framework. So, I'd say 80 per cent there"*.

---

[106] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 156
[107] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 162
[108] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 168
[109] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 134

**135.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am egwyddorion cyffredinol y fframwaith, ac fe'u disgrifiodd yn gryno gan gyfeirio at dri phrif faes:

> *"One is about the efficiency and effectiveness—being able to judge how efficient and how effective the building control body is. The second part is how well a resource is targeted, and the third part is how well is the building control body delivering on its purpose, so doing the function it was set up to do. And then, underneath those kind of three key purposes, I think, are about six different categories of key performance indicators, and they're quite wide ranging"*[110].

**136.** Nododd nad oedd y fframwaith wedi cael ei groesawu'n gyffredinol yn ystod eu gwaith ymgynghori, ond awgrymodd hefyd fod y dystiolaeth yn dangos eu bod yn credu ei fod yn fframwaith cyson[111].

## Goruchwylio a rheoli risg

**137.** Canfuom nad yw gwasanaethau rheolaeth adeiladu llawer o gynghorau yn adrodd yn ffurfiol i bwyllgor craffu yn rheolaidd. Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod dull cymysg o asesu risg, gyda rhai timau'n cynnal eu cofrestrau risg eu hunain, rhai yn gweithio gyda chofrestrau corfforaethol, a rhai'n peidio â chofnodi risgiau'n ffurfiol nac yn olrhain unrhyw ymdrechion i'w lliniaru.[112]. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi:

> *"... nododd sawl swyddog a gyfwelwyd gennym fod risgiau hysbys yn aml yn cael eu nodi'n anffurfiol o fewn timau a bod y rhain yn cael eu hystyried ar wahân i risgiau eraill ar draws y gorfforaeth.*
>
> *Mae'r dull seilo hwn yn fygythiad i gydnerthedd gan bod y system yn dibynnu'n ormodol ar nifer fach o unigolion sydd â symiau sylweddol o wybodaeth nad yw'n cael ei chofnodi'n ffurfiol, yn cael ei rhannu'n ffurfiol gyda chydweithwyr er gwybodaeth, neu'n cael ei huwchgyfeirio ar gyfer gweithredu. Dim ond lleiafrif bach o awdurdodau lleol y siaradom ni gyda hwy allai ddisgrifio'r weithdrefn ffurfiol ar gyfer*

[110] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 141
[111] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 147
[112] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 44

> *uwchgyfeirio risgiau, gyda llawer yn cydnabod nad yw protocolau o'r fath yn bodoli"*[113].

**138.** Roedd argymhelliad 8 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â'r angen i gynghorau adolygu eu prosesau rheoli risg i sicrhau yr ymdrinnir â risgiau mewn modd mwy systematig, gydag aelodau'n goruchwylio ac yn craffu ar y prosesau hyn.[114]

**139.** Pan ofynnodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol sut yr oedd gwaith yr Archwilydd Cyffredinol wedi arwain at newid y ffordd y drefn o ran adnabod ac ymateb i risgiau, dywedodd:

> *"... it has really raised it up the agenda. As you can imagine, in Government, we have a risk register in every department, we have the normal escalation processes that you would expect, and that means, then, that risks can reach a certain threshold and then they become group-wide, the red risks, amber risks, et cetera, that are looked at by the very senior team across the Welsh Government... our risk rating for building safety on our risk register is amber... it's amber on remediation, because just the sheer complexity of the work and supply chain issues, et cetera. It's amber on reform, because of the scale of the reform, the work that we have to do to bring the Bill forward, et cetera"*[115].

**140.** Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol wneud y gwaith hwn, gan ei bod am ddeall y risgiau sy'n wynebu'r sector yn well. Dywedodd nad oedd gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, o safbwynt y Llywodraeth, wedi cynyddu lefel y risg a'i fod, yn hytrach, wedi helpu fel rhan o'r broses o liniaru risg[116].

## Ein barn ni

**141.** Mae'n fater o ofid i'r Pwyllgor glywed am yr arferion rheoli ariannol pryderus sydd ar waith gan rai awdurdodau lleol, nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

---

[113] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 44
[114] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 15
[115] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 159
[116] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 159

Rydym yn rhannu pryderon yr Archwilydd Cyffredinol am yr arferion hyn ac rydym yn nodi ei argymhelliad y dylai cynghorau gynnal adolygiad ar frys o'u prosesau rheoli ariannol.

**142.** Rydym yn nodi'r sefyllfa yn yr Alban, lle caiff ffioedd eu pennu a'u gosod yn ganolog gan Lywodraeth yr Alban. Er nad yw'r Pwyllgor yn argymell bod angen newid y prosesau, rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r sefyllfa ac ystyried yr opsiwn hwn os na fydd y prosesau'n gwella yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chynghorau Cymru i werthuso eu prosesau pennu ffioedd, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010, yn ogystal â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, yn sgil casgliad yr Archwilydd Cyffredinol. Dylid rhannu gwybodaeth am unrhyw waith yn y maes hwn â'r Pwyllgor.

**143.** Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol o ran cael fframwaith perfformiad cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn monitro'r broses o weithredu'r fframwaith a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran hyn i'r Pwyllgor yn y gwanwyn flwyddyn nesaf, tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r fframwaith.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r broses o weithredu'r fframwaith perfformiad cenedlaethol ar gyfer rheolaeth adeiladu a gwasanaethau diogelwch adeiladau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar hyn ddechrau 2025.

# 5. Materion ôl-weithredol

## Cyd-destun

**144.** Yn ogystal â sicrhau bod gwaith adeiladu yn ddiogel yn y dyfodol, mae'r angen i sicrhau diogelwch adeiladau uchel sy'n bodoli eisoes wedi cael cryn sylw hefyd. Mae hyn yn cynnwys adeiladau sydd â chladin deunydd cyfansawdd alwminiwm (ACM) – un o'r ffactorau a gyfrannodd at dân tŵr Grenfell.

**145.** O gymharu â Lloegr, mae gan Gymru lawer llai o adeiladau risg uwch lle y mae angen cynnal gwaith adfer. Yn 2020, dywedodd Llywodraeth Cymru fod gan Gymru 147 o adeiladau preswyl uchel iawn, o gymharu â thros 11,000 yn Lloegr.[117] O fis Mawrth 2023, mae 171 o adeiladau preswyl uchel yng Nghymru[118]. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd angen gwaith adfer ar bob adeilad.

**146.** Yn gyffredinol, canfu Archwilio Cymru fod gan staff diogelwch adeiladau cynghorau a Gwasanaethau Tân ac Achub ddealltwriaeth dda o nifer yr adeiladau risg uchel a'u lleoliadau.[119] Er gwaethaf hyn, nodir yn yr adroddiad:

> *"Fodd bynnag, mae llawer yn cyfaddef bod lefel y manylder a'r wybodaeth am ddyluniad, adeiladwaith a chynnal a chadw'r adeiladau hyn yn amrywio ac nid oedd pawb a gyfwelwyd gennym yn teimlo'n hyderus bod ganddynt ddarlun cywir a chyfoes. Er gwaethaf hyn, gwelsom mai ychydig o weithredu sy'n digwydd neu sydd yn yr arfaeth o ran diweddaru a gwella gwybodaeth am yr adeiladau risg uchel posibl ym mhob ardal."*[120]

**147.** Mae preswylwyr a pherchnogion eiddo yr effeithir arnynt gan faterion diogelwch ôl-weithredol wedi ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth o'r mater, a rhoddwyd tystiolaeth i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd ynghylch nifer o faterion[121].

---

[117] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 17
[118] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 17 (troednodyn 5)
[119] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 22
[120] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023, tudalen 22
[121] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Welsh Cladiators – Tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Chwefror 2022

**148.** Yn benodol, maent wedi gofyn i Lywodraeth Cymru wneud ymrwymiadau deddfwriaethol tebyg i rai Llywodraeth y DU yn ymwneud â materion ôl-weithredol. Mae Rhan 5 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022, ac Atodlen 8 iddi, yn cynnig rhai mesurau diogelu i lesddeiliaid yn Lloegr, megis adennill costau gwaith gan ddatblygwyr. Nid yw'r elfennau hyn o'r Ddeddf yn gymwys yng Nghymru.

## Datblygiadau dilynol

**149.** Yn y Cytundeb Cydweithio a luniwyd yn 2021 rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ymrwymwyd i ddiwygio diogelwch adeiladau ac ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru ("y Gronfa").[122] Mae'r gronfa hon yn galluogi'r pobl sy'n cyfrifol am adeiladau i gael mynediad at gyllid i gynnal arolygon diogelwch ar gyfer adeiladau sy'n bodoli eisoes. Rhwng 2022-23 a 2024-25, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £375 miliwn i'r gronfa.[123]

**150.** Mae Llywodraeth Cymru wedi llofnodi Cytundeb Datblygwyr gyda'r un ar ddeg cwmni sy'n datblygu adeiladau preswyl uchel yng Nghymru y mae materion diogelwch tân yn effeithio arnynt. Mae hwn yn gytundeb cyfreithiol rwymol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr adfer yr holl adeiladau canolig ac uchel a adeiladwyd ganddynt.

**151.** Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y bydd y Gronfa[124] hefyd yn cynnwys:

- Cynllun adeiladau 'amddifad' i gefnogi adeiladau y mae angen gwaith adfer arnynt, lle y mae'r datblygwr gwreiddiol yn anhysbys neu wedi rhoi'r gorau i fasnachu. Ym mis Tachwedd 2023, roedd cyfanswm o 31 o adeiladau o'r fath.
- £40 miliwn o gyllid i adfer 38 o adeiladau eraill yn y sector cymdeithasol, yn ogystal â'r 26 o adeiladau lle y mae gwaith adfer eisoes wedi'i gwblhau, a 41 o adeiladau lle y mae gwaith eisoes ar y gweill.
- Cynllun Benthyg i Ddatblygwyr i ddarparu benthyciadau di-log am hyd at bum mlynedd i helpu datblygwyr i gwblhau gwaith adfer. Dim ond i'r datblygwyr hynny sydd wedi llofnodi'r Cytundeb all fanteisio ar y Cynllun hwn.

[122] Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio, 2021, tudalen 4
[123] Llywodraeth Cymru, ATISN 16967 – Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, 13 Ionawr 2023
[124] Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn, 21 Mawrth 2023, paragraffau 215-217

**152.** Ym mis Mawrth 2023 hefyd, ysgrifennodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd (ar y pryd) i fynegi pryderon am gyflymder y gwaith adfer a nifer y materion a nodwyd[125]. Nododd hefyd fod tystion o'r farn bod angen deddfwriaeth i ddiogelu lesddeiliaid gan nad yw'r trefniadau hyd yma wedi bod yn effeithiol.

**153.** Yn ei hymateb, amlinellodd y Gweinidog yr ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru, gan ategu'r angen i weithio'n gyflym i ddod o hyd i atebion.[126] Ategodd y Gweinidog hefyd ei hymrwymiad i wneud y gyfundrefn diogelwch adeiladau yn addas at y diben. Mewn datganiad i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023, amlinellodd y Gweinidog lwybr adfer ar gyfer pob adeilad preswyl dros 11 metr o uchder. Mae hyn yn cynnwys adeiladau y mae materion o ran cladin yn effeithio arnynt a rhai lle nad oes unrhyw faterion o'r fath[127].

**154.** Darparodd Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth mewn papur i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, cyn craffu ar y gyllideb ar 18 Ionawr 2024, gan gadarnhau:

- Ers lansio'r Gronfa Diogelwch Adeiladau Cymru ym mis Medi 2021, nodwyd 194 o adeiladau y mae angen arolwg ymwthiol arnynt. Mae 169 o arolygon wedi cael eu cwblhau, y talwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru, ac mae 25 o arolygon yn y broses o gael eu trefnu.
- Yng nghontractau'r Cytundeb Datblygwyr, nodir bod 130 o adeiladau, y cadarnhawyd bod angen gwaith ar 110 ohonynt hyd yn hyn. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar 34 o adeiladau a bwriedir dechrau gwaith ar 34 o adeiladau eraill yn 2024.
- Mae gwaith ar y gweill i ystyried sut y gellir cefnogi datblygwyr llai, na allant fforddio talu costau adfer llawn o bosibl.
- Roedd gwaith wedi dechrau ar dri o'r 31 o adeiladau amddifad ac roedd amserlenni gwaith manwl yn cael eu datblygu ar gyfer adeiladau eraill yn y garfan hon.
- Mae'r gwaith o adfer adeiladau'r sector cymdeithasol yn parhau. Mae'r papur yn cyfeirio at y ffaith bod £39 miliwn arall wedi cael ei neilltuo i'r ffrwd waith hon a bod cyfanswm o 131 o adeiladau yn mynd i gael budd, neu wedi cael budd, o'r cyllid hwn. Mae'r 131 hwn yn ffigur uwch na'r 105

[125] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 24 Mawrth 2023
[126] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Mai 2023
[127] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 28 Tachwedd 2023, paragraffau 345-348

a awgrymwyd ar adeg datganiad y Gweinidog ym mis Mawrth 2023 (gweler uchod).

- Mae 22 o geisiadau wedi cael eu gwneud i'r Cynllun Cymorth Lesddeiliaid gydag 11 o geisiadau cymwys a dau eiddo wedi cael eu prynu oddi wrth eu perchnogion. Mae saith ymgeisydd yn mynd drwy'r broses prynu eiddo, mae un yn darparu rhagor o wybodaeth i'r sawl sy'n ymdrin â'r achos ac mae un yn cael ei adolygu. At hynny, nododd Llywodraeth Cymru y dylai canllawiau prisio cladin wedi'u diweddaru gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig leihau'r gwrthdaro a'r oedi i brynwyr cartrefi, gwerthwyr a lesddeiliaid sy'n dymuno ail-forgeisio eu cartrefi.

- Mae cymorth ar gael i lesddeiliaid drwy gynllun newydd i ddarparu cyngor cyfreithiol annibynnol i'r rheini sydd â phryderon am ddiogelwch tân eu hadeilad a'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w hadfer. Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn cael eu caffael ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o lansio'r gwasanaeth hwn yn 2024.

- Mae cwmni cyfyngedig wedi cael ei sefydlu i gynnal Tîm Arolygu ar y Cyd. Mae'r broses recriwtio wedi dechrau, ac felly hefyd y gwaith i sefydlu methodoleg a rhaglen arolygu (gan weithio ochr yn ochr â chynghorau ac awdurdodau tân ac achub).

- Bydd Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn cael ei gyflwyno i'r Senedd bresennol ac yn adeiladu ar y cynigion a nodir ym Mhapur Gwyn 2021 er mwyn sefydlu'r system reoleiddio ddiwygiedig, pennu llinellau atebolrwydd, ac adolygu'r Gorchymyn Diogelwch Tân.

## LABC a thystiolaeth Llywodraeth Cymru

**155.** Pan ofynnwyd iddo am ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o'r risgiau diogelwch mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes, rhoddodd Peter Richards ymateb yng nghyd-destun ei waith yn Abertawe, gan nodi:

> *"We have a complete understanding of the identified buildings in Swansea that are in line for remediation, or need remediation. So, it's a complete and thorough understanding in that respect, locally. And*

> *it will be the same in the key areas. I can't comment for referring to those random properties here and there"*[128].

**156.** Pan ofynnwyd iddo a oedd dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â risgiau mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes yn ddigonol, dywedodd:

> *"I think the inroads that have been made to date are commendable… the tragedy of Grenfell, I know that we are however many years down the line now, but to the people that are involved and affected that live and reside, lease and own these buildings, it hasn't happened quickly enough that these things have to be addressed properly. The risks need to be considered, the funding needs to be considered and doesn't come easily. But I think the direction that has been quite clearly laid out by the Minister is commendable"*[129].

**157.** Holodd y Pwyllgor Llywodraeth Cymru ymhellach ynghylch a oedd dyddiadau targed penodol neu gerrig milltir wedi eu gosod ar gyfer mynd i'r afael â materion adfer ôl-weithredol[130]. Wrth ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod cerrig milltir ac ymrwymiadau penodol ynghlwm wrth bob adeilad, ac nad oedd unrhyw ddyddiad targed cyffredinol[131]. Pan ofynnwyd iddi am sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd, o gofio ei bod yn ddibynnol i raddau helaeth ar weithredwyr eraill, dywedodd:

> *"I think the pace is dependent to a large extent on others, because we're not actually doing the work ourselves as Welsh Government, but I do think it varies depending on the different interventions. So, if you take the social sector and orphan buildings where we're providing grant funding, we're much more in control of the timetable for those, more so than when we're working with and through the developers, particularly where it's in private ownership…"*[132].

[128] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 211
[129] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Ionawr 2024, paragraff 213
[130] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 173
[131] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 174
[132] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 177

**158.** Nododd y Pwyllgor fod tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn awgrymu y gallai'r broses adfer gymryd tair i bum mlynedd i'w chyflawni'n llwyr. Wrth ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio:

> *"We don't have the very significant numbers of buildings affected in Wales as they do in England, but we are, in effect, drawing on many of the same contractors, the specialists and suppliers, in order to be able to remediate these buildings. So, there are lots of aspects that are outside of our control. We need to make sure that we are using high-quality contractors to do this work. They are inundated—there was an awful lot of work around. So, there are an awful lot of factors that are out there. And it's one of the reasons why we've been keen to avoid putting specific timescales in place"*[133].

**159.** Pan ofynnwyd iddi am sut yr oedd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod gan Lywodraeth Cymru grŵp rhanddeiliaid strategol sy'n dod â'r rhanddeiliaid sydd â diddordeb ynghyd mewn un fforwm. Mae hyn yn cynnwys cymdeithasau tenantiaid, Welsh Cladiators, cynrychiolwyr y diwydiant, arbenigwyr technegol a llywodraeth leol[134].

**160.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru:

- Fod llai na 25 o arolygon manwl yn weddill yr oedd angen eu cynnal, ar adeg y sesiwn, gan amcangyfrif bod 18 ar ôl[135].
- Nad oes llinell amser benodol i raglen gyffredinol y cytundeb datblygwyr, gan fod cynnydd yn dibynnu ar y prosiect dan sylw. Roeddent yn amcangyfrif bod y cytundeb datblygwyr yn cwmpasu 127 o adeiladau, a bod gwaith eisoes wedi dechrau ar 34 safle, fel y nodwyd uchod[136].
- Eu bod yn ystyried cynnig cymorth grant i ddatblygwyr llai na allant dalu'r costau[137].

---

[133] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 180
[134] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 184
[135] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 192
[136] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 195
[137] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 200

- Nad oedd modd rhoi terfyn amser penodol ar gyfer cwblhau'r gwaith ar adeiladau amddifad, a bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar bedwar adeilad (ar adeg y sesiwn) a oedd i'w gwblhau. Maent yn olrhain cynnydd drwy eu cyfarfodydd monitro[138].

- Y byddai cais olaf i'r sector cymdeithasol ym mis Chwefror 2024 i weld a oedd rhagor o adeiladau i'w hychwanegu. Bryd hynny, byddai gan Lywodraeth Cymru ddarlun llawn o'r galw yn y sector hwnnw[139].

- Bydd y cyngor cyfreithiol annibynnol newydd ar gyfer lesddeiliaid yn cael ei lansio erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol ganlynol (2024-2025)[140].

- Mae'r Tîm Arolygu ar y Cyd eisoes wedi'i sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant, ers mis Hydref 2023. Ar adeg y sesiwn, roedd y broses recriwtio yn mynd yn dda ac roedd llawer o ddiddordeb yn ôl pob golwg[141].

**161.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn olaf tymor y Senedd hon, ond bydd yr union ddyddiad yn amodol ar raglen ddeddfwriaethol y Prif Weinidog[142].

## Ein barn ni

**162.** Roedd yn galonogol clywed tystiolaeth gan LABC bod gwaith y Gweinidog yn y maes hwn wedi bod yn gadarnhaol hyd yma, ond mae'n hanfodol bwysig bod y gwaith hwn yn parhau i gael ei effeithio, o ystyried nifer yr unigolion yr effeithir arnynt yng Nghymru o hyd. Mae'n hanfodol bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo wedi'u cynnwys ac yn rhan o'r broses.

**163.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod diddordeb y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn y maes hwn ac yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor hwnnw i ddatblygu'r materion a amlinellir yn y maes hwn. Bydd cyflwyno'r Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) o ddiddordeb sylweddol i'r Pwyllgor hwn. Y gobaith yw y bydd

[138] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 203
[139] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 205
[140] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 207
[141] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraffau 211-212
[142] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Chwefror 2024, paragraff 213

y Bil hwnnw’n gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i’r afael â’r materion ôl-weithredol hyn mor effeithiol â phosibl.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **17 Ionawr 2024** | **Peter Keates**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC)<br>**Peter Richards**<br>Rheolaeth Adeiladu, Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestru, Cyngor Abertawe<br>Cadeirydd, Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol Cymru (LABC Cymru) |
| **1 Chwefror 2024** | **Tracey Burke**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru<br>**Emma Williams**<br>Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru<br>**John Howells**<br>Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru<br>**Neil Hemington**<br>Pennaeth Cynllunio, Llywodraeth Cymru |